# Dadlwytho’r tancer

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â dadlwytho’r tancer, a allai olygu’r cyfan neu ran o lwyth, fel rhan o ddyletswyddau gyrru. Mae’n cynnwys dyletswyddau’r gyrrwr i gadarnhau bod y tancer yn dal yn ddiogel ac yn gyfreithiol wrth ddadlwytho ac ar ôl hynny.

Mae hefyd yn cynnwys y gofyniad i gyfathrebu gyda chydweithwyr a chwsmeriaid sydd yn gysylltiedig â dadlwytho, a phrawf o weithdrefnau dosbarthu.

Mae’r safon hon yn berthnasol ar gyfer gyrwyr tanceri a’r rheiny sy’n gyfrifol am danceri mewn sefydliadau logisteg.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi cydweithiwr neu gwsmer sy’n gyfrifol am dderbyn y llwyth
2. sicrhau bod yr ardal ddadlwytho yn addas ac yn ddiogel ar gyfer derbyn y llwyth
3. symud y tancer i mewn i safle addas a diogel ar gyfer dadlwytho
4. cadarnhau bod y tancer wedi ei baratoi ac yn barod i’w ddadlwytho
5. gwirio bod y maint cywir o’r llwyth i gael ei ddadlwytho’n cael ei nodi
6. dewis a defnyddio’r cyfarpar cywir ar gyfer dadlwytho
7. gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) wrth ddadlwytho’r tancer gan ddilyn gweithdrefnau sefydliadol a gofynion llwyth
8. dilyn cyfarwyddiadau dosbarthu i ddadlwytho’r tancer, gan sicrhau bod y llwyth yn parhau’n rhydd rhag halogiad
9. dilyn cyfarwyddiadau gweithredu cyfarpar i sicrhau nad oes unrhyw ollyngiadau wrth ddadlwytho
10. monitro dadlwytho’r tancer a chadarnhau ei fod wedi cael ei ddadlwytho yn unol â chyfarwyddiadau dadlwytho
11. nodi a gweithredu pan fydd materion wrth ddadlwytho, gan ddilyn gweithdrefnau sefydliadol
12. cwblhau a storio cofnodion prawf dosbarthu yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
13. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr a chwsmeriaid sydd yn gysylltiedig â dadlwytho’r tancer
14. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol a’r holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch, bioddiogelwch a gweithredu perthnasol yn ymwneud â dadlwytho’r tancer

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i gadarnhau bod cyfarwyddiadau dadlwytho’n cael eu dilyn wrth ddadlwytho’r tancer
2. nodweddion y llwyth i gael ei ddadlwytho, yn cynnwys gofynion gwahanol yn ymwneud â chynnyrch penodol
3. y mathau o ragofalon i’w cymryd wrth ddadlwytho’r tancer
4. sut i atal y llwyth rhag cael ei halogi wrth ddadlwytho
5. y gofynion sefydliadol a gofynion y cwsmer ar gyfer dadlwytho
6. sut dylid paratoi’r tancer ar gyfer dadlwytho
7. sut i osod y tancer yn ofalus ar gyfer dadlwytho
8. y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) y dylid eu defnyddio wrth ddadlwytho
9. sut i fonitro’r dadlwytho
10. y math o faterion a allai ddigwydd wrth ddadlwytho’r tancer, a’r camau y dylid eu cymryd
11. y systemau prawf dosbarthu gwahanol a ddefnyddir yn eich sefydliad
12. pwysigrwydd cyfathrebu gyda chydweithwyr a chwsmeriaid sydd yn gysylltiedig â dadlwytho’r tancer
13. y gweithdrefnau sefydliadol a’r holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch a gweithredu perthnasol yn ymwneud â dadlwytho’r tancer

## Geirfa

- Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol
- Cwsmeriaid: mewnol, allanol
- Cyfarwyddiadau: ysgrifenedig, llafar
- Gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu: Rheolau’r Ffordd Fawr, rheoliadau trafnidiaeth, rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, trwyddedau, oriau gyrwyr, gofynion Tystystgrif Cymhwysedd Proffesiynol Gyrrwr (DCPC), gofynion yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA), Cynllun Cydnabod Gweithredwyr Fflyd (FORS), cyfyngiadau alcohol a chyffuriau, gofynion sefydliadol
- Llwyth: powdrau, deunyddiau gronynnol, mwynau, hylifau, nwyon, bwyd, cynnyrch nad yw’n fwyd, peryglus, gwastraff
- Symud: symudiadau ymlaen, symudiadau yn ôl, troi
- Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): siacedi llachar, hetiau caled, dillad amddiffynnol, diogelwch i’r llygaid, menig, esgidiau uchel
- Rhagofalon: defnydd cywir o PPE, atal gollyngiadau, llwch, anweddau, gwrthdrawiadau
- Prawf dosbarthu: dogfennau papur neu electronig (e.e. terfynellau llaw)
- Tancer: y tancer yr ydych yn ei yrru fel arfer, cynwysyddion tancer, cyfarpar ategol
- Dadlwytho: cyflawn, rhannol, dilyniannol

# Dadlwytho’r tancer

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | SFL209 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithrediadau a chynnal a chadw trafnidiaeth, Gyrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth, Warws a Dosbarthu, Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu |
| **Cyfres/Set** | Gyrru Cerbydau Nwyddau |
| **Geiriau Allweddol** | tancer; dadlwytho; hylif; powdr; nwyon |